Taflen Ffeithiau Dartmoor
Datblygiad Parciau Cenedlaethol yn y DG

Gellir dilyn hanes datblygiad Parciau Cenedlaethol yn y DG dros gyfnod o 150 o flynyddoedd mewn ymateb i dri brîf cymhelliant. Y cymhelliad cyntaf oedd y diddordeb mawr cynnar yng nghefn gwlad a fynegwyd orau gan feirdd rhamantus. William Wordsworth yn Ardal y Llynnoedd, er ei bod yn resyn ganddo fod yna botensial i dyrrau o bobl fynd i'r ardal trwy gyfrwng y rheilffordd, un o'r pethau mwyaf enwog a fynegodd y 1810 oedd bod Ardal y Llynnoedd fel rhyw 'eiddo cenedlaethol y mae gan bob dyn hawl a diddordeb ynddo, os oes ganddo lygaid i weld a chalon i fwynhau.' Dechreuodd y cysyniad cyfoes o harddwch naturiol a chadwraeth ddatblygu o ganlyniad i hyn ac fe ffurfiwyd nifer o gymdeithasau gwirfoddol i ddal tir ac i ddadlau dros eu diogelu ac i'r cyhoedd gael hawl i gael mynediad ato. Er enghraifft, ym 1895 sefydlwyd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Lleoedd o Ddiddordeb Hanesyddol a Harddwch Naturiol (a adwaenir yn awr fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a chanddo bwrpasau tebyg i'r rhai sydd gan y Parciau Cenedlaethol heddiw.

Daeth yr ail gymhelliant yn sgil y chwyldroad diwydiannol, pan symudodd pobl i drefi a dinasoedd. Erbyn 1851 yr oedd hanner poblogaeth Lloegr a Chymru yn byw mewn trefi a dinasoedd ac fe ddaeth yr arferiad o gael mynediad i gefn gwlad yn boblogaidd o ran 'hamddena awyr agored iach' yn gynyddol boblogaidd. Daeth hyn yn ffactor gynyddol bwysig yn wleidyddol rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail fel y cynyddodd y galw am fynediad am ddim i'r bryniau ac i gefn gwlad agored, ac yr oedd tresmasiad enfawr y Kinder Scout (yn Ardal y Pîc) ym 1932 yn foment tyngedfennol. Y cymhelliad mwyaf oedd mudiad y Parciau Cenedlaethol a ymddangosodd gyntaf yng Ngogledd America, a gafodd ei ysbrydoli i raddau helaeth gan yr Albanwr hwnnw â chanddo weledigaeth, sef John Muir.
Ym 1872 pasiwyd Deddf yn sefydlu Yellowstone fel y Parc Cenedlaethol cyntaf yn y byd, ac wedi i'r gyngres ei gymeradwyo, fe sefydlwyd Parc Cenedlaethol Yosemite yn ddiweddarach. Er bod cysyniad yr Americanwyr o warchod bywyd gwyllt yn dra gwahanol i fodel y DG o Barciau Cenedlaethol rydym yn rhannu'r un syniad o ddiogelu adnoddau pwysig naturiol gwerthfawr.

Daeth y cymhelliannau hyn ynghyd ac ennill momentwm gwirioneddol yn gynnar yn yr 20fed ganrif: yn 1929 fe wnaeth Pwyllgor Addison gynnal y Pwyllgor ymchwiliadol cyntaf i'r syniad o greu Parciau Cenedlaethol yn y DG, ac fe sefydlwyd y Pwyllgor Sefydlog gwirfoddol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, a adwaenir erbyn hyn fel Cyngor y Parciau Cenedlaethol ym 1935. Wrth i Brydain fynd ati i gynllunio ar gyfer y gwaith ail-adeiladu wedi dinistr yr Ail Ryfel Byd, gofynnwyd i John Dower, pensaer, cerddwr ac aelod o'r Pwyllgor Sefydlog dros y Parciau Cenedlaethol i baratoi adroddiad. Argymhelliad Adroddiad Dower i'r Llywodraeth oedd y dylai Parciau Cenedlaethol gael eu sefydlu ynghyd ag asiantaeth Lywodraethol newydd - sef Comisiwn y Parciau Cenedlaethol.

Yr oedd Deddf y Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad* 1949 yn gwneud darparu ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol yn Lloegr a Chymru. Rhwng 1951 a 1957 cadarnhawyd deg Parc Cenedlaethol. Ym 1989 rhoddwyd statws Parc Cenedlaethol i ardal arall, sef y Norfolk a'r Suffolk Broads. Ym 1999 datganodd y Llywodraeth y bwriad i ddynodi dau Barc Cenedlaethol newydd yn Lloegr (South Downs a'r New Forest). Crëwyd Parc Cenedlaethol y New Forest ym mis Mawrth 2005 a chafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol New Forest ei bwerau llawn ym mis Ebrill 2006.
Yn annhebyg i nifer o Barciau Cenedlaethol eraill mewn gwledydd eraill, fel yr UDA er enghraifft, nid y wladwriaeth sydd berchen ar Barciau Cenedlaethol Lloegr a Chymru. Mae'r term 'cenedlaethol' yn golygu eu bod wedi cael eu hadnabod fel lleoedd sydd o bwys yn genedlaethol i'n treftadaeth genedlaethol ac fel y cyfryw maent yn haeddu gwarchodaeth a sylw arbennig. O fewn pob Parc Cenedlaethol y mae nifer o dirberchnogion, gan gynnwys cyrff cyhoeddus ac unigolion preifat. Lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio yw'r Parciau Cenedlaethol. Pwrpasau statudol y Parciau Cenedlaethol fel y datganwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995 yw:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol.

Hefyd y mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parciau Cenedlaethol.

Yn rhinwedd ei harddwch naturiol eithriadol y mae Dartmoor yn un o Barciau Cenedlaethol Lloegr a Chymru. Ac yntau'n cynnwys ardal o 368 milltir sgwâr (954 cilomedr sgwâr), yn Dartmoor y mae'r ardal fwyaf a gwylltaf o gefn gwlad agored yn ne Lloegr.

Topograffi

Pwynt Uchaf - High Willhays 621m
Pwynt Isaf - Pont Doghole 30m
Tir dros - 300m (984ft) - 51% o'r Parc Cenedlaethol
Tir dros - 460m (1,509ft) -13% o'r Parc Cenedlaethol

Daeareg

Mae rhan helaeth o wneuthuriad Dartmoor (65%) yn wenithfaen, carreg igneaidd a ymwthiwyd oddeutu 295 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Amgylchynir y craidd gwenithfaen enfawr hwn gan greigiau gwaddodol gan gynnwys calchfaen, cerrig mân a thywodfaen sy'n perthyn i'r cyfnodau Carbonifferws a Defonaidd. Newidiwyd y rhai agosaf at yr ymwthiad gwenithfaen (fe'u metamorffwyd) gan wres dirdynnol a phwysau ac adweithiau cemegol.

Moelydd / Bryniau a adwaenir fel 'Tor'.

Mae dros 160 'Tor' yn Dartmoor. Y prif rai yw:

Tor / Moel / Bryn	Uchder uwchlaw lefel y môr
High Willhays	621m
Yes Tor	619m
Great Links Tor	586m
Fur Tor	572m
Great Mis Tor	539m
Great Staple Tor	455m
Haytor	454m
Hound Tor	448m
Sharpitor	402m
Sheeps Tor	320m
Vixen Tor	320m

Hinsawdd

Dominyddir hinsawdd Dartmoor gan wyntoedd de-orllewinol ac felly mae tuedd iddi fod yn oer ac yn wlyb. Rhostiroedd uchel y gogledd orllewin ac ardaloedd canolbarth deheuol lle mae'r uchder dros 450m (1,500tr) sy'n goddef yr amodau hinsoddol mwyaf garw.

Glaw: Princetown - 2150mm ar gyfartaledd
Widecombe-in-the-Moor - 1581mm ar gyfartaledd

Eira: Ar yr iseldir – llai na 5 niwrnod y flwyddyn
Ar yr ucheldir - 15 - 20 niwrnod ar gyfartaledd
Ar y copaon – 30 niwrnod ar gyfartaledd

Heulwen: 3-4 awr y dydd ar gyfartaledd

Aneddiadau

Y prif aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol yw: Ashburton, Buckfastleigh, Moretonhampstead, Princetown, Yelverton, Horrabridge, South Brent, Christow a Chagford.
Mae cyfanswm poblogaeth y Parc Cenedlaethol: oddeutu 33,000
Mae poblogaeth (yr anheddiad mwyaf) oddeutu 3,500.

Y Defnydd Mwyaf a Wneir o Dir

Rhostir (gan gynnwys pori garw)	48,450 hectar
Ffermdir	33,041 hectar
Coedwig/Coedlan	11,152 hectar
Cronfeydd	209 hectar
Arall (gan gynnwys pentrefi)	2577 hectar
Tir Comin	Oddeutu 34,878

Mae Dug Cernyw yn berchen ar 28,328 hectar Amcangyfrifir bod 20,000 hectar o'r tir y mae Dug Cernyw yn berchen arno yn dir comin

Gwarchodfeydd ac Ardaloedd a Ddiogelir

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Coed a Rhostir Dwyrain Dartmoor (yn cynnwys Bovey Valley & Yarner Wood & Trendlebere Down)	366 hectar
Dendles Wood	29 hectar
Black Tor Copse	29 hectar
Wistman's Wood & Longaford Newtake	170 hectar

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGAu)

Dynodiad cadwraeth yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu SODdGA sy'n dynodi ardal a ddiogelir yn y DG. SODdGAu yw sylfaen deddfwriaeth cadwraeth natur ac mae'r rhan fwyaf o'r dynodiadau cadwraeth natur/daearegol yn seiliedig arnynt, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Arbennig a Ddiogelir ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Gelwir y broses o ddynodi safle yn safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ddynodiad; mae'n cynnwys nifer o gamau, gan gynnwys ymgynghori gyda pherchennog y safle. Os yw safle yn mynd trwy'r broses hon ac yn cael ei ddynodi'n SODdGA dywedir ei fod wedi cael ei "ddynodi". Yr enw cyffredin a roddir ar y safleoedd hynny sydd wedi cael eu dynodi oherwydd eu diddordeb bywydegol yw AODdGAU Bywydegol a'r rhai sy'n cael eu nodi oherwydd eu diddordeb

daearegol yn AODdGAU Daearegol. Ychydig o safleoedd sy'n cael eu dynodi o ganlyniad i'w diddordeb bywydegol a daearegol.
Natural England yw'r corff a benodwyd gan y llywodraeth dros ArdaloeddODdGA yn Lloegr.

Mae dros 40 o leoliadau o fewn Parc Cenedlaethol Dartmoor yn cynnwys 26,169 hectar. Mae'r ddau brif safle, sef Gogledd Dartmoor a De Dartmoor yn gwneud cyfanswm o 20,000 hectar.

Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfnaint

Dart Valley	290 hectar
Lady's Wood	3 hectar
Dunsford Wood	57 hectar
Mill Bottom	6 hectar
Blackadon	37 hectar
Lower East Lounston	2.5 hectar

Perchnogaeth Tir Ardaloedd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Holne Woods	69 hectar
Lydford Gorge	48 hectar
Plym Estate	237 hectar
Teign Valley	165 hectar
Trowlesworthy Warren	1,349 hectar
Hembury	163 hectar
Castle Drogo	308 hectar
Milfordleigh	7 hectar
Wheal Betsy	1 hectar
Woodcock Wood	8 hectar

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal hyfforddiant ar 12,906 hectar sy'n cynnwys ardaloedd rhydd-ddaliadol, deiliadaeth trwy brydles a daliad trwyddedig. O'r cyfanswm hwn defnyddir 10,871 hectar ar gyfer dibenion tanio ffrwydriadau 'byw'.

Mae Cwmni Dŵr South West Water yn berchennog ar 4,421 hectar o dir gan gynnwys 8 cronfa ddŵr.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn berchen ar 1,359 hectar o dir ar brydles, yn ogystal â 381 hectar (941 acer) rhydd-ddaliadol.

Mae Dugiaeth Cernyw yn berchennog ar 28,328 hectar.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor yn berchen ar 1,451 hectar gan gynnwys:

Holne Moor & Woods	783 hectar
Haytor	421 hectar
Wray Cleave	31 hectar
Sanduck Wood	12 hectar
Casely Wood	8 hectar
Dendles Waste	80 hectar
Whiddon Scrubbs	8 hectar
Blackingstone Rock	5 hectar
Plasterdown	93 hectar
Trendlebere	10 hectar

Henebion Hynafol

Yn y Deyrnas Gyfunol, Heneb Rhestredig yw safle archeolegol neu adeilad hanesyddol sy'n 'bwysig yn genedlaethol', sy'n cael ei warchod rhag newid diawdurdod. Mae'r warchodaeth a roddir i heneb restredig arwahan i'r system Gynllunio Gwlad a Thref. Weithiau caiff Henebion Rhestredig eu dynodi fel adeiladau 'rhestredig'.

Mae tirwedd Dartmoor yn arbennig o bwysig yn archeolegol, gyda dros 10,000 wedi'u cofrestru ar Safleoedd y Sir a'r Gofrestr Henebion . Mae yno dros 1,000 Henebion Hynafol Rhestredig, ac mae'r ffigwr hwn yn codi bob blwyddyn. Mae dros 2,500 o adeiladau sydd wedi'u 'rhestru' oherwydd eu diddordeb archeolegol neu hanesyddol hefyd.

*Deddf Seneddol, (Deddf Gyngresol yn yr UDA) neu statud neu ddeddf a basiwyd trwy gyfrwng deddfwriaeth yw hyn.

I gael taflenni ffeithiol eraill gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor trwy gyfrwng y Saesneg yna cliciwch ar www.dartmoor-npa.gov.uk/index/learningabout/lab-factsheetshome.htm

Caniateir llungopïo'r cyhoeddiad hwn ar gyfer dibenion addysgiadol o dan y Ddeddf Llungopïo * 1988.
© Awdurdod Parc Cenedlaethol Dartmoor 2008